***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 424 (Cy. 105)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Ebrill 2022* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *6 Ebrill 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *5 Mai 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 95(1)(a) a (3)(**1**), 96(1), (3)(b) ac (c)(**2**) a 123(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003(**3**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Perthnasol) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2022 a daw i rym ar 5 Mai 2022.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw—

(a) cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol;

(b) cynghorau cymuned sy'n gynghorau cymuned cymwys o fewn ystyr adran 30(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021")(**4**);

(c) awdurdodau Parciau Cenedlaethol;

(d) awdurdodau tân ac achub, a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**5**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(**1**) Mae adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn diffinio mai'r person priodol, o ran Cymru, yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Diwygiwyd adran 95 gan baragraff 3(5) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28), paragraff 28 o Atodlen 1 i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2), O.S. 2021/356 (Cy. 107) ac O.S. 2022/372 (Cy. 92). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 96 gan baragraff 3(6) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007.

(**3**) 2003 p. 26.

(**4**) 2021 dsc 1.

(**5**) 2004 p. 21.

(e) cydbwyllgorau corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf 2021;

ystyr "cwmni" ("*company*") yw cwmni o fewn ystyr Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**6**);

mae i "swyddogaethau cyffredin" yr ystyr a roddir i "ordinary functions" yn adran 95(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

### Awdurdodiad i fasnachu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau a'r amodau i'w bodloni cyn arfer y pŵer i fasnachu

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae awdurdod perthnasol wedi ei awdurdodi i wneud at ddiben masnachol unrhyw beth y'i awdurdodir i'w wneud at ddiben cyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau cyffredin.

(2) Cyn arfer y pŵer a roddir gan baragraff (1), rhaid i'r awdurdod perthnasol—

(a) llunio achos busnes i gefnogi'r bwriad i arfer y pŵer, a

(b) cymeradwyo'r achos busnes hwnnw.

(3) Ystyr "achos busnes" o dan erthygl 2(2) yw datganiad cynhwysfawr ynghylch—

(a) nodau ac amcanion y bwriad i arfer y pŵer;

(b) y costau, y buddsoddiadau a'r adnoddau eraill y mae eu hangen er mwyn cyflawni'r nodau a'r amcanion hynny;

(c) y canlyniadau ariannol y disgwylir y bydd y bwriad i arfer y pŵer yn eu cyflawni;

(d) unrhyw ganlyniadau perthnasol eraill y disgwylir y bydd y bwriad i arfer y pŵer yn eu cyflawni;

(e) unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r bwriad i arfer y pŵer gan gynnwys asesiad o ddifrifoldeb y risgiau hynny, ac unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r risgiau hynny;

(f) yr effaith (gan gynnwys yr effaith ar delerau ac amodau cyflogaeth) ar unrhyw staff y mae'n bwriadu eu cyflenwi i gwmni y mae'n bwriadu arfer y pŵer drwyddo;

(g) y trefniadau bwriadedig ar gyfer staffio'r cwmni y mae'n bwriadu arfer y pŵer drwyddo, gan gynnwys telerau ac amodau cyflogaeth arfaethedig unrhyw staff sydd i'w cyflogi.

### Cyhoeddi achos busnes

**3.** Rhaid i awdurdod perthnasol gyhoeddi unrhyw achos busnes a gymeradwyir yn unol â rheoliad 2(2)(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

### Gofyniad i adennill costau etc.

**4.** Rhaid i awdurdod perthnasol adennill costau unrhyw adeiladau ac ystafelloedd, nwyddau, gwasanaethau, staff neu unrhyw beth arall a gyflenwir ganddo i gwmni y mae'n arfer y pŵer a roddir gan erthygl 2(1) drwyddo, oddi wrth y cwmni hwnnw.

### Dirymu

**5.** Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006(**7**) wedi ei ddirymu.

(**6**) 1989 p. 42.
(**7**) O.S. 2006/979 (Cy. 102).

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

4 Ebrill 2022

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 95 (pŵer i fasnachu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau drwy gwmni) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud unrhyw beth at ddiben masnachol y maent wedi eu hawdurdodi i'w wneud er mwyn cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau cyffredin ("y pŵer i fasnachu") ac i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag arfer y pŵer i fasnachu gan awdurdod perthnasol. Mae adran 96 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod amodau ar arfer y pŵer i fasnachu.

O dan adran 95(4) o'r Ddeddf, ni chaniateir arfer y pŵer i fasnachu ond drwy gwmni.

Mae erthygl 1 o'r Gorchymyn hwn yn pennu'r awdurdodau perthnasol y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt.

Mae erthygl 2 yn awdurdodi awdurdodau perthnasol i wneud unrhyw beth at ddiben masnachol y maent wedi eu hawdurdodi i'w wneud er mwyn cyflawni unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau cyffredin. Mae hefyd yn rhagnodi'r amodau y mae rhaid i awdurdod perthnasol eu bodloni cyn arfer y pŵer i fasnachu.

Mae erthygl 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol gyhoeddi unrhyw achos busnes a gymeradwyir yn unol ag erthygl 2(2)(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae erthygl 4 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol adennill unrhyw gostau y mae'n mynd iddynt ar gyfer unrhyw beth a gyflenwir ganddo i gwmni y mae'n arfer y pŵer i fasnachu drwyddo, oddi wrth y cwmni hwnnw.

Mae erthygl 5 yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Awdurdodau Gwerth Gorau) (Pŵer i Fasnachu) (Cymru) 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.